Joint review Cydadolygiad

Holiadur ar gyfer staff y gwasanaethau cymdeithasol



SSIW AGCC
SOCIAL SERVICES INSPECTORATE FOR WALES
AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Holiadur Staff

Cyflwyniad

Mae'r holiadur hwn yn gyfle i chi ddweud wrthym am y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod hwn a helpu'r tîm cydadolygu i ddeall gwaith yr adran. Yn ystod yr amser y bydd y tîm yn ei dreulio yn yr awdurdod, bydd cyfle i'r staff weld canlyniadau'r arolwg a thrafod y canfyddiadau hynny mewn cyfarfodydd gydag aelodau'r tîm.

Pwrpas y cydadolygiad yw gweld pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi am yr adolygiad.

Mae taflen ar gael o'r enw Adolygu eich gwasanaethau sy'n disgrifio sut mae cydadolygiadau yn cael eu cynnal a'r rhan sy'n cael ei chwarae gan yr holiadur hwn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy gyfrwng yr holiadur hwn i:

- ddeall y materion allweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn well;
- clustnodi meysydd y byddwn yn ymchwilio ymhellach iddynt;
- rhoi tystiolaeth wrth ffurfio barn.

Atebwch y cwestiynau yn onest. Ni fyddwn yn gofyn i chi roi eich enw, felly bydd eich atebion yn gyfrinachol. Bydd yr holiaduron yn cael eu dadansoddi a'u trafod gyda'r awdurdod lleol yn ystod y cydadolygiad ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir. Gall y tîm cydadolygu gynnwys dyfyniadau dienw yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd y dyfyniadau yn dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys yr holiadur hwn.

Sut i lenwi'r holiadur

Mae pedair rhan i'r holiadur.

Rhan 1 - Amdanaf i.
Rhan 2 - Am y ffordd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu trefnu yn yr awdurdod hwn.
Rhan 3 - Am y gwasanaethau gofal cymdeithasol.
Rhan 4 - Yr argraff gyffredinol.

Y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw rhoi tic mewn un blwch gyferbyn â phob datganiad. Mae'n bosibl y bydd rhai am wneud sylwadau ychwanegol, efallai am feysydd sy'n arbennig o dda neu feysydd sy'n peri pryder. Mae lle i chi roi sylwadau ychwanegol ar ddiwedd pob adran.

Gofynnir i bob un lenwi rhannau 1 a 4. Yn Rhannau 2 a 3, efallai y bydd rhai cwestiynau na allwch eu hateb. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd gennych gysylltiad uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau. Mae croeso i chi roi tic yn y blwch ddim yn gwybod mewn sefyllfa felly.

Diolch am helpu

RHAN 1 - Amdanaf i

Rhowch dic yn y blwch sy'n rhoi'r disgrifiad cliriaf o'ch sefyllfa chi.

1. Rwyf wedi gweithio i'r awdurdod lleol hwn ers:

Llai na blwyddyn	1-2 flynedd	3-5 blynedd	6-9 blynedd	Dros 10 mlynedd
☐	☐	☐	☐	☐

2. Yr wyf:

Dan 21 oed	21-30	31-40	41-50	dros 51 oed
☐	☐	☐	☐	☐

3. Rwyf yn cael fy nghyflogi yn:

Llawn amser	Rhan-amser	Rhannu Swydd
☐	☐	☐

4. Fy amodau cyflogaeth yw:

Parhaol	Tymor Penodol	Dros dro	Achlysurol	Asiantaeth	Cyflenwi
☐	☐	☐	☐	☐	☐

5. Y math o waith yr wyf yn ei wneud yw:

Asesu a rheoli achosion *(gan gynnwys Therapi Galwedigaethol)* ☐
Cymorth busnes *(gan gynnwys Gweinyddol/ Clercol/Cyllid/TG/ Adnoddau Dynol/Rheoli Perfformiad/Cynllunio)* ☐
Gofal Preswyl ☐
Gofal Dydd ☐
Gofal Cartref ☐
Rheoli ☐
Rhywbeth arall ☐
Nodwch beth _____

6. Y prif grŵp o ddefnyddwyr yr wyf yn gweithio gyda nhw yw:

Plant a Theuluoedd ☐
Pobl Hŷn ☐
Iechyd Meddwl ☐
Anableddau Dysgu ☐
Camddefnyddio Alcohol/Sylweddau ☐
Troseddau Ieuenctid ☐
Anabledd Corfforol/Nam ar y Synhwyrau ☐

Pob un ☐
Dim un ☐
Math arall ☐
Nodwch beth _____

7. Mae cyfres o ddatganiadau isod. Ar ôl ystyried pob datganiad, rhowch dic yn y blwch sydd agosaf i'ch barn chi.

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
7.1 Rwy'n gwybod beth y mae disgwyl i mi ei gyflawni yn y gwaith.	☐	☐	☐	☐	☐
7.2 Mae'r awdurdod lleol hwn wedi clustnodi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnaf i wneud yr hyn y mae disgwyl i mi ei wneud.	☐	☐	☐	☐	☐
7.3 Mae'r awdurdod lleol hwn wedi fy helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnaf i wneud yr hyn y mae disgwyl i mi ei wneud.	☐	☐	☐	☐	☐
7.4 Rwyf yn cael cefnogaeth ac arweiniad da yn fy ngwaith.	☐	☐	☐	☐	☐
7.5 Rwyf yn cael fy ngoruchwylio'n rheolaidd.	☐	☐	☐	☐	☐
7.6 Rwyf yn medru gwneud fy ngwaith yn ystod fy oriau gwaith arferol.	☐	☐	☐	☐	☐
7.7 Mae problemau recriwtio a chadw staff wedi cael effaith ar fy maes gwaith i.	☐	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
7.8 Mae fy ngwaith i yn cael ei werthfawrogi yn y gwasanaethau cymdeithasol.	☐	☐	☐	☐	☐
7.9 Mae fy ngwaith i yn cael ei werthfawrogi yn yr awdurdod lleol.	☐	☐	☐	☐	☐
7.10 Rwy'n mwynhau fy ngwaith.	☐	☐	☐	☐	☐
7.11 Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n galonnog.	☐	☐	☐	☐	☐

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw faterion sy'n codi o'r datganiadau yn Rhan 1.

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw feysydd penodol o arfer sy'n ymwneud â Rhan 1.

RHAN 2 – Am y ffordd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu trefnu yn yr awdurdod hwn.

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*

Y gweithlu

1. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn medru recriwtio digon o staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol yn fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Rheoli perfformiad

2. Mae safonau clir ar gyfer fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

3. Mae'r dangosyddion perfformiad a'r targedau ar gyfer gwella perfformiad fy nhîm neu'r gwasanaeth yn ein helpu ni i wneud ein gwaith yn well.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Cynllunio a partneriaeth

4. Mae fy nhîm yn gwneud cyfraniad da i'r cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

5. Mae pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth yn fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

6. Mae gan fy nhîm gynllun busnes da i roi cyfeiriad clir i ni.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr ran mewn cynllunio'r gwasanaethau ar gyfer fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Comisiynu a chontractio

8. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn newid mewn ffordd sy'n adlewyrchu cynlluniau'r adran i fod â gwahanol fathau o wasanaethau sy'n hybu annibyniaeth.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*

Adnoddau

9. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi i mi'r adnoddau sydd eu hangen arnaf i wneud fy ngwaith (lle i weithio, cyfarpar etc.)

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

10. Mae fy maes gwaith i yn cael cyfran deg o'r adnoddau gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Arweinyddiaeth

11. Ymgynghorir â mi ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar fy ngwasanaeth ac arnaf i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

12. Mae'r rheolwyr ar y lefel uchaf yn cyfathrebu'n dda gyda'r staff.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

13. Mae unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cynllunio'n dda ac yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

14. Mae'r fframwaith trefniadaethol/rheoli ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod hwn yn gwneud synnwyr da.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

15. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaethau a'u gofalwyr.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

16. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu oddi wrth y staff rheng flaen.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*

Diwylliant corfforaethol a gwleidyddol

17. Mae arweinyddiaeth wleidyddol glir ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod hwn.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

18. Mae'r aelodau etholedig yn cael gwybodaeth dda ac mae iddynt ran yng ngwaith y gwasanaethau cymdeithasol.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

19. Mae nodau'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hybu gan yr awdurdod lleol cyfan.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

20. Mae rhannau eraill o'r awdurdod (fel Tai, Addysg a'r canol corfforaethol) yn helpu i gyflawni gofal cymdeithasol da yn fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw faterion sy'n codi o'r datganiadau yn Rhan 2.

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw feysydd penodol o arfer sy'n ymwneud â Rhan 2.

RHAN 3 - Am y gwasanaethau gofal cymdeithasol

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*

Mynediad

1. Mae gwybodaeth o safon dda ar gael am y gwasanaethau.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

2. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y mannau iawn.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

3. Gall defnyddwyr a gofalwyr gael gwasanaethau'n rhwydd yn ystod oriau swyddfa.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

4. Mae'r gwasanaeth ar ôl oriau gwaith yn gweithio'n dda.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Asesu

5. Mae'r asesiadau yn cael eu gwneud mewn pryd.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

6. Mae systemau effeithiol yn eu lle ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith asesu.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

7. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu llawer iawn o sylw i farn defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr am sut yr hoffent i'w hanghenion gael eu diwallu.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

8. Lle mae gan ddefnyddwyr a gofalwyr angen na ellir cwrdd ag ef, caiff hyn ei gofnodi.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

9. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau gynlluniau gofal ysgrifenedig da sydd wedi'u diweddaru.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*

Rheoli ac adolygu gofal

10. Mae'r achosion cyfredol yn cael eu rhannu.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

11. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaeth rheoli gofal strwythuredig, ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda defnyddwyr a gofalwyr.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

12. Mae'r adolygiadau yn cael eu cynnal mewn pryd.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

13. Nid yw defnyddwyr y gwasanaethau yn gorfod ymdopi gyda rheolwr achos/gweithiwr cymdeithasol sy'n newid yn aml.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

14. Mae asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran helpu gwasanaethau cymdeithasol i reoli achosion.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Ystod y gwasanaethau

15. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi darparu ystod dda o wasanaethau i ddefnyddwyr a gofalwyr yn fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

16. Mae'r ystod o wasanaethau wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

17. Mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd hyblyg gan ymateb i amgylchiadau unigol defnyddwyr a gofalwyr.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

18. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau yn fy maes gwaith i.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

19. Mae llawer o angen sy'n flaenoriaeth yn fy maes gwaith i nad yw'n cael ei ddiwallu.

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
20. Mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar sail meini prawf clir i benderfynu pwy sy'n gymwys.	☐	☐	☐	☐	☐

Ansawdd y gwasanaethau

21. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr a gofalwyr yn cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol.	☐	☐	☐	☐	☐
22. Mae ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.	☐	☐	☐	☐	☐
23. Mae'r gwasanaethau yn ymateb i broblemau ac argyfyngau.	☐	☐	☐	☐	☐
24. Mae gan ddefnyddwyr a gofalwyr lais yn y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rhedeg.	☐	☐	☐	☐	☐
25. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n galed i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith a wneir gyda defnyddwyr gwasanaethau.	☐	☐	☐	☐	☐

Amddiffyn pobl agored i niwed

26. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cwrdd â'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel yn fy maes gwaith i.	☐	☐	☐	☐	☐
27. Mae trefniadau yn eu lle i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd o 'risg'.	☐	☐	☐	☐	☐
28. Mae'r trefniadau aml-asiantaeth ar gyfer diogelu pobl agored i niwed yn gweithio'n dda ar gyfer fy grwp(iau) i o gleientiaid.	☐	☐	☐	☐	☐
29. Mae defnyddwyr gwasanaethau yn byw yn y lleoliad iawn i'w cadw'n ddiogel.	☐	☐	☐	☐	☐

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
30. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael gwasanaethau rhianta corfforaethol da.	☐	☐	☐	☐	☐

Hybu cynhwysiant cymdeithasol

31. Yn fy maes gwaith i, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn llwyddiannus iawn o ran helpu pobl i fyw yn y gymuned.	☐	☐	☐	☐	☐
32. Mae yna gyfleoedd da i ddefnyddwyr gwasanaethau ddod yn fwy annibynnol yn fy maes gwaith i.	☐	☐	☐	☐	☐

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw faterion sy'n codi o'r datganiadau yn Rhan 3.

Os dymunwch, gallwch roi sylwadau isod am unrhyw feysydd penodol o arfer sy'n ymwneud â Rhan 3.

RHAN 4 - Yr argraff gyffredinol

	Cytuno'n gryf	*Cytuno*	*Anghytuno*	*Anghytuno'n gryf*	*Ddim yn gwybod*
Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael canlyniadau da.	☐	☐	☐	☐	☐
Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u trefnu'n dda i wella'r gwasanaethau a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr.	☐	☐	☐	☐	☐

Beth yw prif gryfderau'r gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod lleol hwn?

Pa feysydd y mae angen eu datblygu fwyaf?